# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Ionawr 2020

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

# Papurau i'w nodi

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**4.1 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 6 Tachwedd**

(Tudalennau 1 - 2)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 1

**4.2 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant**

(Tudalen 3)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 2

**4.3 Llythyr gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth - Canllawiau teithio gan ddysgwyr**

(Tudalen 4)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 3

**4.4 Papur gan Dr David Dallimore ynghylch addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yng Nghymru**

(Tudalennau 5 - 8)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 4 (Saesneg yn unig)

**4.5 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Rhaglen Estynedig y GIG, 'Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc'.**

(Tudalennau 9 - 10)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 5

**4.6 Llythyr gan y Gweinidog Addysg - Addysg ddewisol yn y cartref**

(Tudalennau 11 - 12)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 6

**4.7 Llythyr gan y Gweinidog Addysg - Y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

(Tudalennau 13 - 15)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 7

**4.8 Llythyr gan y Cadeirydd at Lywodraeth Cymru - Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc - y camau nesaf o ran Cadernid Meddwl**

(Tudalennau 16 - 18)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 8

**4.9 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad – Goblygiadau posibl ar gyfer pwyllgorau'r Cynulliad**

(Tudalennau 19 – 20)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 – Papur i'w nodi 9

**4.10 Llythyr gan y Gweinidog Addysg – Y wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant yn y sector addysg gan y Ganolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**

(Tudalennau 21 – 23)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 – Papur i'w nodi 10

**4.11 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Y wybodaeth ddiweddaraf am Iechyd Meddwl Amenedigol**

(Tudalen 24)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 – Papur i'w nodi 11

**4.12 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – diweddariad am welliannau Cyfnod 3 i'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**

(Tudalennau 25 – 26)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 – Papur i'w nodi 12

**4.13 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Grŵp Gweithredu Strategol – diweddariad am welliannau Cyfnod 3 i'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**

(Tudalennau 27 – 28)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-01-20 – Papur i'w nodi 13

**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA-P/JM/2857/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

25 Tachwedd 2019

Annwyl Lynne,

Roeddwn wrth fy modd yn cael dod i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 6 Tachwedd. Diolch am gadeirio trafodaeth mor gynhwysfawr ynghylch hawliau plant. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, fe wnaethoch chi ofyn am fwy o wybodaeth am nifer y Gweinidogion sydd wedi cael hyfforddiant ym maes Hawliau Plant.

Mae amrywiaeth eang o hyfforddiant, gwybodaeth ac adnoddau ar gael i Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud hawliau plant yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu polisi a darparu gwasanaethau. Bydd Gweinidogion hefyd yn cael cyngor cynhwysfawr gan eu swyddogion ynghylch goblygiadau'r cyngor polisi y maent yn ei ystyried mewn perthynas â hawliau plant. Mae'r cyngor hwn o gymorth sylweddol i Weinidogion yn y maes hwn - er nad yw'n gyfystyr â hyfforddiant ffurfiol.

Yn ogystal, mae Gweinidogion yn derbyn mewnbwn sylweddol gan y rheini sy'n gysylltiedig â'r sector plant, sy'n pwysleisio pwysigrwydd cwestiynau'n ymwneud â hawliau plant. Rwy'n cwrdd â'r Comisiynydd Plant bedair gwaith y flwyddyn, ac rwy'n gwybod bod yr Athro Holland yn cael cyfarfodydd rheolaidd â llawer o'm cyd-Weinidogion. Er enghraifft, mae'r Comisiynydd Plant yn cwrdd â Phrif Weinidog Cymru bob blwyddyn i drafod ei Hadroddiad Blynyddol.

Nid oes rhaid i Weinidogion ddilyn hyfforddiant gorfodol ym maes hawliau plant ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel y soniais yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor, byddwn yn agored i'r syniad o ysgrifennu at Weinidogion eraill Llywodraeth Cymru i gynnig y cyfle i gael hyfforddiant o'r fath.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie Morgan AC**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

10 Rhagfyr 2019

Annwyl Lynne

**Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant**

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 13 Tachwedd yn gofyn am restr o'r Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi'u cyhoeddi. Ymddiheuriadau am yr oedi cyn ateb. Fel y soniais yng nghyfarfod y Pwyllgor, mae'r wefan Hawliau Plant newydd gael ei lansio o'r newydd ac roeddwn eisiau gwneud yn siŵr bod y dolenni perthnasol i'r Asesiadau'n gweithio cyn ymateb.

Amgaeir rhestr o'r Asesiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sydd i'w cael ar ein gwefan Hawliau Plant yn yr adran ar ddeddfwriaeth hawliau plant.

https://llyw.cymru/hawliau-plant-yng-nghymru

Yn gywir



**Julie Morgan AC**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 3

**Lee Waters AC**
**Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Deputy Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein ref – LW/55/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

10 Rhagfyr 2019

Annwyl Lynne,

Diolch am lythyrau y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 12 Tachwedd a'r 15 Tachwedd ynghylch teithio gan ddysgwyr.

O ran eich llythyr dyddiedig 12 Tachwedd, roeddech yn gofyn am ddiweddariad ynghylch ein hymrwymiad i adolygu ac ymgynghori ar y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr eleni. Rydym wedi cwblhau ein hadolygiad ond oherwydd ein bwriad i adolygu Teithio gan Ddysgwyr Ôl-16 a'r effaith bosibl y gallai canlyniad yr ymarfer hwn ei gael ar y Canllawiau, byddwn yn oedi gyda'r ymgynghoriad tan i'r adolygiad o Deithio gan Ddysgwyr Ôl-16 ddod i ben.

Mae adolygiad o gwmpas ac amserlen Teithio gan Ddysgwyr Ôl-16 yn cael eu drafftio ar hyn o bryd gan swyddogion ac rwyf wedi gofyn iddynt sicrhau bod y materion yr ydych wedi'u codi yn eich llythyr dyddiedig 15 Tachwedd o fewn y cwmpas gwaith.

Byddem yn falch o dderbyn rhagor o fewnbwn gan y Pwyllgor, wedi iddynt graffu ar y ddeddfwriaeth teithio gan ddysgwyr.

Yn gywir



**Lee Waters AC**
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Deputy Minister for Economy and Transport

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

CYPE(5)-01-20 – Papur i'w nodi 4

**Comments on the response of the Deputy Minister for Health and Social Services to the Chair of the Children, Young People and Education Committee regarding Early Childhood Education and Care**

The response of the Deputy Minister and the accompanying Written Statement from Welsh Government on their approach to Early Childhood Education and Care is likely to be welcomed across the sector in providing some clarity to what has become in recent years, a particularly confused and complex policy area.

The letter and accompanying Statement sets out a number of clear principles and it is encouraging to see a commitment to long-term change (10 years+) as opposed to the short-term view of ECEC that seems present in the current election campaign (see LSE Blog 'Free' childcare: the party manifestos and the extensive privatisation of childcare'). Nonetheless (and understandably) the response is currently short on detail around how the many aspirations will be taken forward. However, there are a number of themes evident within the Statement that require closer scrutiny and in some cases, clarification or questioning.

1. **Children's Rights**

   The Statement makes a brief reference to early years policy and the UN Convention on the Rights of the Child. It also refers to systems that are 'child centred' and services that focus on child development. This does provide some insight into Welsh Government's view of childhood, but it could be argued that this is not necessarily a full commitment to a children's rights approach to policy where for example, young children are actively involved in decisions that affect them (Article 12).

   The Statement seems to support children's rights ***to*** ECEC but it might be argued does not go far enough in supporting the rights of the child ***in*** ECEC. Certainly, access and participation are key planks in the Statement, and Article 29, which says children have the right to achieve their educational potential, should provide a strong argument for free, universal provision of early childhood services. Yet, while there is a focus on quality of provision and child development within the Statement, these could be seen as things that are *done to children*, rather than things that *children participate in*.

2. **Early Childhood Education and Care**

   Possibly the most fundamental change set out in the Statement is the use of the term *Early Childhood Education and Care* to describe what have previously been the policy areas of 'childcare' and 'early education'. This unified approach with equal status given to 'care' and 'education' has the exciting potential to change attitudes and foster a whole-child approach across services. However, it would be helpful to have a clear interpretation of Welsh Government's definition of ECEC (see Research Paper 1, p.2) that clarifies the services included, and any excluded (e.g. informal carers, home educators, unregistered settings operating for less than 2 hours) from policy intervention. In particular, the sentence in the Statement that '*The type of setting they attend is irrelevant if they are being supported and*

*nurtured as they need'* (page 2, para 1) requires a clarification that sets out the responsibility of the state and the responsibility of families in supporting and nurturing young children.

While the Statement mentions a 'single approach' to ECEC there is no detail around what a single approach will look like, particularly in its governance. While the approach to 'provider neutrality' and a 'single funding' framework is essential in developing a coherent approach to ECEC in Wales, the current position is highly complex involving two government departments, two regulators, 22 local authorities with varying policies, and a myriad of provision operating within a number of legislative frameworks. However, it is encouraging to see that in principle the Deputy Minister seeks to remove *'…artificial divides between education and care'* and the Statement is clear that there will be no 'schoolification' of the early years with education dominating the agenda.

**3. Quality**

The Statement makes a number of welcome commitments to the provision of quality across ECEC, and the main policy announcement contained in the Statement is to develop a much-needed Quality Framework.

As set out in ECEC Briefing 2, p.11, *'…the evidence that poor quality ECEC provision offers very few benefits to children, families and society – and could actually have a negative impact – makes it important for policy makers to focus on the characteristics of provision that are associated with good quality.'*

Steps to agreeing a Quality Framework will need to bring about a clearly defined model of quality that is recognised, agreed and understood by all ECEC stakeholders. As the Statement suggests, this needs to be the centrepiece of developing ECEC in Wales but will need to incorporate a number of strands including ECEC pedagogy, workforce development, quality assurance and incorporation of quality across all areas of ECEC policy.

Ideally this would see changes to the law, although it could exist within separate legislative frameworks should policy leadership and a shared value system bring the divergent approaches together.

**4. Access to services**

The Statement accepts that in Wales the availability of ECEC services is highly variable and that *'…parents are restricted in where they can access early education and childcare*.' However, the subsequent commitment *'…to ensure all providers can choose which services they offer, and parents can have a full and open choice of where to access those services'* will not necessarily address the geographical inequalities in current ECEC service provision across Wales (see Briefing Paper 3 p.7). This is likely to require a fundamental re-evaluation of how ECEC is funded and a move away from the current demand-driven approach to the childcare market which has been shown to create less provision, especially in less well-off areas.

The commitment to ensuring that children with additional needs can access ECEC without any inequalities is to be welcomed given evidence that many ECEC providers currently find it difficult to afford the additional support children may require.

**5. Welsh Language**

Welsh Government's Statement commits to increasing the amount of Welsh-medium and bi-lingual ECEC settings, but only *'…to ensure parents can access ECEC in the language of their choice.'* (my emphasis).

Many across the sector would like to go further (see ECEC Symposium Communique) in aspiring to standardised bi-lingual ECEC programmes across Wales. While this might be a long-term aspiration, as a first step – and as recommended by the Welsh Language Commissioner – consistent definitions and data regarding current language provision are needed in order to make realistic policy judgements.

**6. Funding of ECEC**

Despite evidence suggesting that the best outcomes for children – especially those from the most disadvantaged homes – do better when ECEC provision is mixed and universally available, neither the response nor the Statement sets out what Welsh Government sees the eventual reach of state-supported ECEC to be. The Deputy Minister says that in principle, Welsh Government want to make it *'…easier for parents and families to navigate the complex and wide range of provision of support available to them'*. In the short-term parents certainly need additional support and guidance in accessing funding, but a clearer statement about how Welsh Government sees ECEC being funded in the longer-term is critically important – especially given the breadth of ambition set out in the Principles. This is unlikely to be the same as the 'single funding model' referred to in the Deputy Minister's letter (although some clarification would help). While it is understandable that Welsh Government is currently unable to commit long-term spending plans, some security in knowing how ECEC is to be funded in the future will be crucial in getting existing stakeholders on-board across a period of what will be extensive and significant change.

**7. Building on existing structures**

The Deputy Minister's response is clear in looking to build on existing successful structures, high quality provision and good pedagogical practice including the Foundation Phase. Yet, in many cases there is a knowledge vacuum around what works well, and what does not in early years practice. There is also a lack of evidence to discern what quality is, and means to different stakeholders across ECEC. For the principles outlined by the Deputy Minister to become practice, policy development therefore needs to be accompanied by robust research and evaluation.

In summary, the Deputy Minister's response and accompanying Welsh Government Statement is a constructive step in developing a much more positive environment for ECEC in Wales. It undoubtedly provides a good starting point for discussions with a broad range of stakeholders that will help shape the development of progressive ECEC policies.

David Dallimore, Bangor University

5th December 2019

CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 5

**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/VG/5725/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

9 Rhagfyr 2019

Annwyl Lynne,

**Rhaglen estynedig Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc y GIG**

Yn fy llythyr i'r Pwyllgor ar 22 Hydref 2019, amlinellais y cynigion drafft ar gyfer estyniad i'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a chadarnhau'r estyniad hwn 'mewn egwyddor'. Yn awr, rwy'n ysgrifennu i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y rhaglen estynedig, a'r penderfyniad terfynol yr wyf wedi'i wneud.

Rwyf wedi cytuno i ganiatáu estyniad i'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc tan fis Mawrth 2021. Ond rwyf hefyd wedi cynnwys darpariaeth i roi estyniad hyd at fis Mawrth 2022, ar yr amod bod y llywodraeth newydd yn cytuno. Mae'r llythyr hwn yn rhoi amlinelliad i'r Pwyllgor o'r meysydd yr wyf am i'r rhaglen ganolbwyntio arnynt tan 2021/22.

Mae cyfraniadau Grŵp Cyfeirio Arbenigol Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a'r Bwrdd Rhaglen ehangach wedi bod yn werthfawr iawn wrth roi tystiolaeth a chyfarwyddyd o ran pa bethau y mae angen i'r GIG a'r partneriaethau trawslywodraethol barhau i ganolbwyntio arnynt i sicrhau gwell darpariaeth gwasanaeth/cymorth ar gyfer iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc.

Mae'r rhaglen waith amlinellol yr wyf wedi cytuno arni yn cynnwys:

- Darparu fframwaith sy'n disgrifio'r **cymorth cynnar a gwell cefnogaeth** a fydd ar gael ym mhob rhan o Gymru. Bydd y fframwaith yn gwella cadernid a dulliau cymorth fel rhan o ddull system gyfan ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd hefyd yn ceisio disgrifio'r cysylltiadau â chynlluniau a gwasanaethau drwy waith gydag ysgolion a gwasanaethau iechyd meddwl mwy arbenigol mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Bydd hyn yn cynnwys gwaith agos rhwng Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a Rhwydwaith CAMHS y GIG, ochr yn ochr â'r Tîm Dull Ysgol Gyfan a'r Tîm Gwella Canlyniadau Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

- Gweithio gyda phartneriaid ehangach drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu **cymorth cynnar a gwell fframwaith cymorth ac yna cefnogi ei fabwysiadu ar lefel bwrdd partneriaeth rhanbarthol.** Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â chyfeiriad y gwaith yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru o ran y rôl

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

strategol y dylai'r Byrddau Partneriaeth rhanbarthol ei chwarae yn y dyfodol gyda'r agenda amlasiantaethol bwysig hon. Bydd y ffrwd waith Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cynnwys adnabod modelau a dulliau y gellir eu gweithredu ledled Cymru drwy hwyluso rhannu arferion da a dysg o brosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa Trawsnewid.

- Cefnogi datblygu **dull system gyfan ar gyfer plant a phobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol.** Bydd y ffrwd waith hon yn datblygu gweledigaeth a pholisïau i'r dyfodol ar gyfer gwasanaethau cymorth niwroddatblygiadol yng Nghymru. Mae hyn yn allweddol i lywio'r gwaith i sicrhau y gellir bodloni anghenion pob plentyn (boed o fewn neu o dan y trothwy presennol ar gyfer gwasanaethau arbenigol). Gwneir hyn drwy weithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chysylltu â gweithrediad Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018.

Bydd y rhaglen estynedig hefyd yn parhau i weithio'n agos gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru os oes angen, i ystyried goblygiadau'r tair ffrwd waith ar y gweithlu.

Bydd y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn gofyn am Fwrdd Rhaglen ffurfiol a bydd y ddwy ffrwd waith newydd sy'n canolbwyntio ar gymorth cynnar a gwell cefnogaeth yn rhoi diweddariad i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan a Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant. Bydd y trefniant hwn yn parhau i gryfhau'r cysylltiadau gyda pholisi Llywodraeth Cymru gan roi tryloywder a gwelededd i ddatblygiad y gwelliannau ar gyfer rhanddeiliaid.


Bydd y drydedd ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth Niwroddatblygiadol yn adrodd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan. Bydd hyn yn sicrhau trosolwg traws sector gan grŵp ar lefel Weinidogol sy'n cynnwys iechyd, addysg, awdurdod lleol a rhanddeiliaid ehangach.

I sicrhau meithrin cysylltiadau cryf ar draws y system gyfan, a chefnogi'r trosolwg strategol sy'n ofynnol, bydd Cadeirydd Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn parhau i fod yn aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan. Hefyd, mae Cyfarwyddwr y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl yn GIG Cymru wedi'i gynnwys fel aelod newydd o Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant.

Byddaf yn parhau i adolygu'r trefniadau llywodraethu arfaethedig wrth i waith y rhaglen fynd rhagddo, yn enwedig ar ôl creu swyddogaeth Weithredol y GIG er mwyn sicrhau bod trefniadau yn parhau i fod yn addas at y diben, a sicrhau eu bod y cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer rhoi trosolwg.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd y gwaith gwerthfawr sydd eisoes wedi'i wneud dan y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn parhau, ac y bydd yn ei dro yn gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc ledled Cymru.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Lynne Neagle AC
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Rhagfyr 2019

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 19 Tachwedd, ynghylch addysgu plant a phobl ifanc yn y cartref, a'r ohebiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r pwyllgor ynghylch ein hymgynghoriad diweddar ar ganllawiau statudol i awdurdodau lleol ar addysg yn y cartref.

Mewn perthynas â'r cyngor cyfreithiol y cyfeiriwch ato yn eich llythyr, mae fy swyddogion wrthi'n ystyried ac yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y rheini sy'n codi materion ynghylch dehongliad ac eglurdeb cyfreithiol. Er nad ydw i eto mewn sefyllfa i roi eglurdeb ynghylch y pwyntiau a godwyd, cadarnhaodd fy natganiad gweinidogol ar 11 Rhagfyr ein bod yn rhoi'r amser i ystyried yr holl faterion cymhleth y mae'r ymgynghoriad wedi'u nodi.

Roedd y datganiad hefyd yn nodi y bydd y canllawiau statudol a rheoliadau'r gronfa ddata[1] yn ddarostyngedig i brosesau a gwaith craffu trylwyr, megis asesiad o'r effaith ar ddiogelu data, asesiad effaith integredig ac asesiad effaith rheoleiddiol. Gallaf gadarnhau y bydd y rheoliadau yn destun trafodaeth mewn cyfarfod llawn maes o law.

Rwy'n cydnabod pryderon y pwyllgor, ac rwy'n eich sicrhau mai'r un yw'r bwriad o hyd, sef sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael addysg addas. Budd pennaf y plentyn yw'r ystyriaeth hollbwysig, ac rwy'n ymroddedig i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i berfformio cystal ag y gallant, boed mewn addysg brif-ffrwd neu yn y cartref.

[1] Rheoliadau Cronfa Ddata Addysg Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg

CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 7

**Kirsty Williams AC**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/KW/5702/19

Lynne Neagle AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCYPE@cynulliad.cymru

12 Rhagfyr 2019

Annwyl Lynne,

Wrth i'ch Pwyllgor graffu ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), gwnaed ymrwymiad i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar y rhaglen i drawsnewid y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Dyma'r wythfed llythyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi.

**1. Deddfwriaeth a chanllawiau statudol**

Ar 17 Medi, cyhoeddais newidiadau i'r amserlen a bennwyd ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf'). Bydd y Cod ADY a'r rheoliadau nawr yn cael eu gosod i'r Cynulliad eu cymeradwyo yn 2020, a bydd y system ADY newydd yn dechrau cael ei gweithredu'n raddol o fis Medi 2021, a'r rolau statudol a grewyd o dan y Ddeddf yn cychwyn ym mis Ionawr 2021.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Bydd yr adborth a ddaeth i law gan randdeiliaid, dysgwyr a theuluoedd yn llywio penderfyniadau polisi ar bynciau anodd o bob math. O ystyried graddfa a chymhlethdod y gwaith sy'n ofynnol er mwyn diwygio'r Cod a'r rheoliadau drafft yng ngoleuni'r adborth, byddwn nawr yn gosod y Cod a'r rheoliadau i'r Cynulliad eu cymeradwyo yn 2020. Byddwn hefyd yn ystyried sut gellir gwella'r Cod i'w wneud mor glir â phosibl, er mwyn sicrhau bod y rheini sydd â swyddogaethau o dan y Ddeddf yn deall yn llawn eu rhwymedigaethau statudol a sut i weithredu'r system newydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal, bydd cyflwyno'r system newydd o fis Medi 2021 yn gofalu bod digon o amser i wasanaethau ymbaratoi cyn i'r system newydd ddod i rym, a fydd gobeithio yn arwain at weithredu llyfnach, mwy llwyddiannus. Bydd cychwyn y rolau statudol ym mis Ionawr 2021 hefyd yn caniatáu amser ychwanegol i'r bobl a benodir i'r rolau baratoi eu hunain a'u sefydliadau i ysgwyddo'u dyletswyddau o 1 Medi 2021.

**2. Gweithredu / cymorth trosglwyddo**

Yn gynharach eleni, cyflwynodd Arweinwyr Trawsnewid ADY gynlluniau cyfathrebu a chynlluniau gweithredu rhanbarthol ac ym maes addysg bellach ar gyfer 2019-20. Roedd y cynlluniau yn amlinellu sut mae pob ardal yn ymbaratoi ar gyfer gweithredu'r system newydd. Cyfarfu fy swyddogion â'r Arweinwyr Trawsnewid yn unigol dros yr haf i drafod eu cynlluniau yn fanwl.

Rydym yn parhau i gwrdd â'r grŵp Arweinwyr Trawsnewid ADY unwaith bob dau fis. Cyn y cyfarfodydd, mae'r Arweinwyr Trawsnewid yn paratoi adroddiadau sy'n nodi manylion y cynnydd a wnaed o ran amcanion y cynlluniau gweithredu. Rydym yn fodlon bod cynnydd da i'w weld ar draws pob ardal o ran cyflawni'r amcanion.

Yn unol â'r penderfyniad i ymestyn yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Ddeddf, mae penderfyniad wedi'i wneud erbyn hyn i ymestyn yr amserlen ar gyfer swyddi Arweinwyr Trawsnewid ADY hefyd un flwyddyn tan fis Mawrth 2022.

**3. Datblygu'r gweithlu**

Gan weithio gyda'n Harweinwyr Trawsnewid ADY, rydym yn rhoi pecyn cynhwysfawr ar waith i hyfforddi, meithrin sgiliau craidd a chynnig datblygiad proffesiynol parhaus i bob ymarferydd. Mae rhan o'r gwaith hwn yn golygu datblygu cynnig dysgu proffesiynol penodol ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatblygu neu wella sgiliau y bydd eu hangen arnynt i gyflawni'r rôl yn effeithiol. Bydd rheolwr prosiect, a ddechreuodd weithio ar y rhaglen ym mis Tachwedd, yn rheoli'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynnig dysgu hwn.

Bydd myfyrwyr rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yn chwarae rôl hollbwysig yn y broses o gyflwyno'r system ADY newydd a Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Mae'r meini prawf achredu ar gyfer rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru yn nodi ei bod yn ofynnol i ddarparwyr partneriaethau ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o iechyd a lles disgyblion ac ADY. Er nad ydym yn nodi'r union adnoddau y dylid eu defnyddio, rydym yn gweithio gyda phrifysgolion i gefnogi eu hymdrechion i sicrhau bod adnoddau dysgu ADY a iechyd a lles ar gael er mwyn cyfoethogi prif raglenni astudio Addysg Gychwynnol Athrawon a thu hwnt. Er enghraifft, rydym yn goruchwylio prosiect i ddatblygu adnoddau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys: niwroddatblygiad ac addysgeg, datblygiad plentyn, lles emosiynol a meddyliol, ADY a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Y bwriad yw sicrhau bod yr adnoddau hyn yn barod i'w defnyddio o fis Medi 2020.

**4. Codi ymwybyddiaeth**

Ers cyhoeddiad 17 Medi y cyfeiriwyd ato yn rhan 1 y llythyr hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn diweddaru ei deunydd ar-lein i adlewyrchu'r newidiadau yn yr amserlen weithredu. Mae cwestiynau cyffredin diwygiedig wedi'u cyhoeddi ar wefan y Llywodraeth, ac mae cyhoeddiadau newydd yn cael eu datblygu, yn benodol ar gyfer gwahanol randdeiliaid. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen gydag Eliesha Cymru sy'n helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu deunyddiau hyfforddi ar gyfer y rheini a fydd yn

gweithredu'r system ADY ac i godi ymwybyddiaeth. Cytunwyd ar ddull o sicrhau bod yr hyfforddiant yn hwylus i bob rhanddeiliad a phartner gweithredu, a'i fod yn gyson.

Yn ogystal, byddwn yn ymgynghori yn fuan ar elfennau o'r Cod a'r rheoliadau nad oedd yn bosibl inni ymgynghori arnynt o'r blaen. Mae'r rhain yn ymwneud â rhieni plant a phobl ifanc sy'n ddiffygiol eu galluedd a rhestr y Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol. Maent yn elfennau hanfodol o'r rheoliadau a'r Cod cyffredinol, a byddwn yn targedu ein cyfathrebu er mwyn i randdeiliaid allu ymateb yn briodol.

Rydym yn rhagweld y bydd rheoliadau'r Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol yn effeithio ar grŵp penodol o randdeiliaid, ac rydym yn gobeithio lansio'r ymgynghoriad hwn ddechrau'r flwyddyn newydd. Rydym yn disgwyl cynulleidfa lawer ehangach i'r rheoliadau sy'n ymwneud â rhieni plant a phobl ifanc sy'n ddiffygiol eu galluedd a'r bennod gyfatebol yn y Cod, ac felly er mwyn sicrhau'r un mynediad i bawb i'r wybodaeth, rydym hefyd yn paratoi fersiynau hawdd eu deall o'r ymgynghoriad hwn ac sy'n hwylus i bobl ifanc. Rydym yn gobeithio lansio hyn ym mis Chwefror 2020.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg

Eitem 4.8

**CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 8**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg

12 Rhagfyr 2019

Annwyl Weinidogion

**Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru – y camau nesaf ar gyfer Cadernid Meddwl**

Diolch am lythyr y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 9 Rhagfyr 2019 yn cadarnhau ei benderfyniad terfynol ynghylch ffocws y Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYPP).

*Ein cyfarfod ar 4 Rhagfyr*

Yn ein cyfarfod ar 4 Rhagfyr, ystyriwyd eich ymateb ar y cyd ar 22 Hydref 2019 i ganfyddiadau ein gwaith dilynol ar ein hadroddiad Cadernid Meddwl (a gyhoeddwyd ar 8 Awst 2019). I lywio ein camau nesaf, ystyriwyd hefyd ddadansoddiad manwl o'r wybodaeth rydych wedi'i darparu i'n diweddaru ar gynnydd mewn perthynas â'n hargymhellion gwreiddiol a dilynol. Roeddwn i hefyd yn gallu rhannu fy safbwynt ar y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y cyd ar y Dull Ysgol Gyfan lle rwy'n credu bod cynnydd cyson yn cael ei wneud.

Rydym yn cydnabod y gwaith sy'n mynd rhagddo ar draws gwasanaethau i wella'r cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, yn dilyn ein hystyriaeth o'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael, rydym yn dal i bryderu bod pellter sylweddol i'w deithio o hyd, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fel Pwyllgor rydym wedi datgan yn glir dro ar ôl tro ein bod yn credu bod yn rhaid datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl o ran diwygio ar draws y system. Dyma pam y gwnaethom argymell, fel rhan o'n gwaith dilynol, y dylai'r Rhaglen T4CYP barhau er mwyn sicrhau ffocws strategol ar draws y sector.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

*Y camau nesaf ar gyfer y Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc*

Ymhellach i lythyr y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 9 Rhagfyr, rydym yn dal i bryderu y bydd y cynigion ar gyfer T4CYPP llawer llai yn gwneud y gwaith o ddiwygio ar draws y system yn anoddach i'w gyflawni. Gyda gwaith pwysig yn parhau i gael ei wneud ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, rydym yn credu y gallai hyn achosi ymagwedd dameidiog a allai rwystro'r gwaith goruchwylio a pha mor gyflym y gwneir y gwaith er mwyn gwneud newid ystyriol i'n plant a phobl ifanc.

Nodwn eich bwriad i "sicrhau meithrin cysylltiadau cryf ar draws y system gyfan, a chefnogi'r trosolwg strategol sy'n ofynnol" drwy sicrhau bod y Rhaglen T4CYPP yn adrodd ar gynnydd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol ar y Dull Ysgol Gyfan, a Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant. Byddem yn ddiolchgar o gael cadarnhad o gwmpas Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant o ystyried ei ffocws dealladwy hyd yma ar blant sy'n derbyn gofal. Byddem yn awgrymu ymhellach y dylid ystyried ehangu cwmpas y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol i gwmpasu'r newid system gyfan sy'n ofynnol.

Yn sgil eich penderfyniad ynglŷn â dyfodol ffocws y Rhaglen T4CYPP, a'n pryderon ynghylch y risg o ddarnio, ein bwriad yw monitro effaith y newidiadau arfaethedig ar gynnydd traws-sector yn y maes hwn.


*Ein camau nesaf fel pwyllgor*

Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi ymrwymo yn ein hadroddiad gwreiddiol i beidio â chaniatáu i'r mater arwyddocaol hwn gael ei basio, unwaith eto, i bwyllgor olynol gyda chasgliadau ailadroddus o "ragor o waith eto i'w wneud". Yn sgil yr ymrwymiad hwn, rydym yn bwriadu cynnal gweithdy i randdeiliaid ym mis Chwefror 2020 i labelu cynnydd yn erbyn pob un o'n hargymhellion gwreiddiol a dilynol gyda statws coch/oren/gwyrdd. Byddwn hefyd yn defnyddio'r sesiwn honno i nodi beth arall y mae angen i ni bwyso amdano fel Pwyllgor erbyn diwedd y Cynulliad hwn.

Er ein bod yn siomedig na chafodd pob un o'n hargymhellion dilynol ymateb unigol yn eich llythyr ar 22 Hydref, byddem yn hapus i dderbyn rhagor o fanylion – cyn ein sesiwn gyda rhanddeiliaid – er mwyn llywio ein gwaith. Byddem yn falch o gael hynny cyn diwedd mis Ionawr 2020.

Yn olaf, i nodi dwy flynedd ers cyhoeddi ein hadroddiad Cadernid Meddwl ym mis Ebrill 2020, rydym yn bwriadu gofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Yn unol â'n hymrwymiad hirsefydlog i wrando ar leisiau plant a phobl ifanc ym mhopeth a wnawn, rydym hefyd yn bwriadu gwahodd Senedd Ieuenctid Cymru a Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol T4CYPP i gyfrannu at ein gwaith.

Yn gywir



**Lynne Neagle AC**

**Cadeirydd**

Copi at: Carol Shillabeer, Cadeirydd, Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**
—
National Assembly for Wales
**Committee on Assembly Electoral Reform**

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Rhagfyr 2019

Annwyl Cadeirydd,

**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Fel y gwyddoch, cafodd y **Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad** ei sefydlu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Medi 2019. Ei gylch gwaith yw archwilio argymhellion y **Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**. Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i rannu eich barn ar y goblygiadau posibl i bwyllgorau'r Cynulliad a allai ddeillio o unrhyw newid ym maint y Cynulliad.

Yn benodol, byddem yn croesawu sylwadau eich Pwyllgor ar y materion a ganlyn:

- Pa un a yw maint cyfredol y Cynulliad wedi arwain at unrhyw oblygiadau neu gyfyngiadau o ran gwaith eich Pwyllgor neu'r modd yr ydych yn mynd ati i wneud gwaith craffu ar bolisïau, deddfwriaeth a materion ariannol yng nghyd-destun y materion hynny sydd o fewn eich cylch gwaith.

- Sut y gallai unrhyw newidiadau diweddar neu ddisgwyliedig i bwerau neu gyfrifoldebau'r Cynulliad, neu'r cyd-destun cyfansoddiadol ehangach, effeithio ar gylch gwaith eich Pwyllgor neu'r modd yr ydych yn ymgymryd â'ch rôl.

- Pa un a allai cynnydd ym maint y Cynulliad arwain at unrhyw oblygiadau o ran gwaith pwyllgorau'r Cynulliad, gan gynnwys y gwasanaethau cymorth y maent yn eu cael.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDiwygio@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddReform@assembly.wales,
0300 200 6565

Byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth am sut y mae eich Pwyllgor yn asesu effaith ei waith craffu, ac enghreifftiau o waith craffu effeithiol neu enghreifftiau o gyfleoedd a gollwyd. Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn **dydd Llun 27 Ionawr 2019.**

Byddaf yn gwneud datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 8 Ionawr 2020 er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau am waith y Pwyllgor, neu os ydych o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i chi gwrdd â rhywun i drafod y materion hyn, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor, Helen Finlayson drwy anfon neges e-bost at **SeneddDiwygio@cynulliad.cymru** neu drwy roi galwad ar 0300 200 6341.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/KW/5877/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

17 Rhagfyr 2019

Annwyl Lynne,

Ar 1 Gorffennaf, ysgrifennais atoch gyda gwybodaeth am nifer yr ysgolion a staff addysgu sydd wedi cael hyfforddiant ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod gan y Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae hyn yn dilyn cais am yr wybodaeth hon yn ystod fy sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 20 Mehefin.

Nodais yn fy llythyr fod angen gwaith pellach ar y wybodaeth a ddarparwyd gan y Ganolfan, a hynny er mwyn mireinio'r data gan nad oedd y Ganolfan, bryd hynny, yn casglu data yn llawn ynghylch nifer y staff sy'n cael hyfforddiant, ac yn rhaeadru'r hyfforddiant, ym mhob rhan o Gymru. Er mwyn cael y wybodaeth hon, roedd angen i'r ganolfan ofyn amdani gan hyfforddwyr, ysgolion a chonsortia unigol, ac addewais ysgrifennu eto ar ôl i'r Ganolfan gasglu'r wybodaeth hon. Rwyf wedi cael y wybodaeth bellach ac mae wedi'i hatodi i'r llythyr hwn.

Rwy'n deall eich bod wedi ymweld â'r ganolfan yn ddiweddar i drafod eu gwaith gydag ysgolion. Rwy'n gobeithio bod y cyfarfod wedi bod yn ddefnyddiol i chi a bod gennych bellach ddarlun cliriach o waith y ganolfan, ei heffaith a'r cysylltiadau rhwng Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'n dull gweithredu ysgol gyfan ehangach mewn perthynas â gweithgareddau lles emosiynol a meddyliol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er gwybodaeth.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y diweddaraf am hyfforddiant yn y sector addysg o'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod**

**Y cefndir**

Mae'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod wedi bod yn darparu hyfforddiant i ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd drwy Gymru. Mae cyllid gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru wedi sicrhau arweinydd addysg, sydd wedi datblygu a darparu'r hyfforddiant gan ddefnyddio'r model rhaeadru. Dyma'r unig ffordd o sicrhau y gellir cynnig hyfforddiant i bob ysgol yng Nghymru (yr ymrwymiad yng nghynllun cyflawni 2019-20 y Ganolfan), ac i greu model cynaliadwy a fydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei sefydlu'n iawn.

Gofynnodd y Ganolfan i banel arbenigol gynghori ar y dull o gyflwyno'r hyfforddiant hwn. Nododd y panel hwn y dylid cysylltu â'r pedwar consortiwm addysg i gefnogi'r broses o gyflwyno'r hyfforddiant. Dynodwyd consortia EAS fel prif leoliad y cynllun peilot ar gyfer gwerthuso'r hyfforddiant i ysgolion cynradd. Ar gyfer ysgolion uwchradd, nodwyd tair ysgol i dreialu'r dull gweithredu.

Mae'r wybodaeth yn cynnwys niferoedd presennol, yn ôl ardal consortia, yr ysgolion sydd wedi cael yr hyfforddiant hyd at fis Gorffennaf 2019. Mae'r ffigurau hyn yn rhagdybio bod pob hyfforddwr o leiaf yn cyflwyno'r hyfforddiant yn ei ysgol. Fodd bynnag, mae rhai hyfforddwyr yn cyflwyno i glwstwr o ysgolion, felly mae'r ffigurau hyn yn debygol o fod yn llawer uwch. Mae'r Ganolfan yn amcangyfrif bod dwy ran o dair o ysgolion ledled Cymru wedi cael hyfforddiant.

**Beth arall y mae'r Ganolfan wedi'i gyflawni?**
Mae'r Ganolfan hefyd wedi hyfforddi gweithluoedd eraill yn y sector hwn gan gynnwys 140 o arolygwyr Estyn a thros 120 o weithwyr ieuenctid, sydd bellach wedi'u hyfforddi fel hyfforddwyr i ddarparu hyfforddiant i'r sector hwnnw.

Mae ymchwil eisoes wedi profi bod Arfer sy'n Ystyriol i Drawma mewn ysgolion yn lleihau absenoldeb, ac yn cynyddu cyrhaeddiad ac rydym yn gweld tystiolaeth o hynny yn yr ysgolion sydd wedi cael yr hyfforddiant.

Wrth symud ymlaen, bydd y Ganolfan yn parhau i ddarparu hyfforddiant am weddill y flwyddyn, ac os cytunir ar gyllid yn y dyfodol, bydd yn parhau i ddatblygu Cam 3 yr hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y dysgu wedi'i wreiddio yn yr ysgolion drwy gynlluniau gweithredu. Bydd y Ganolfan hefyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn rhan o gymwysterau TAR a hyfforddiant athrawon. Mae'r Ganolfan yn cydweithio â Sefydliadau Addysg Uwch drwy Gymru i wreiddio dysgu mewn cyrsiau a modiwlau perthnasol.[1]

**Prif niferoedd**
Nifer staff Hyfforddi'r Hyfforddwyr a Sbectrwm (Cam-drin domestig) a hyfforddwyd - 432
Nifer yr ysgolion - tua 610 (yn debygol o fod yn uwch o lawer gan fod rhai hyfforddwyr yn darparu ar gyfer clwstwr cyfan o ysgolion).

---

[1] DS:- Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydweithio â gyda phrifysgolion i ddatblygu deunydd AGA a deunyddiau hyfforddi athrawon sy'n bodoli eisoes fel rhan o'u dull ysgol gyfan. Bydd gwaith y Ganolfan hyd yma yn llywio'r gwaith hwn ac yn cael ei gynnwys ynddo.

**Niferoedd penodol yn ôl consortia**

**EAS**
Mae pob un o'r 252 o ysgolion bellach wedi cael hyfforddiant Cam 1 (Ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod)
Bydd pob ysgol gynradd ac uwchradd wedi cwblhau Cam 2 (Arfer sy'n Ystyriol o Drawma) erbyn diwedd gwanwyn 2020.
Hyfforddi'r Hyfforddwr – Mae tua 65 o hyfforddwyr bellach wedi'u hyfforddi i gyflwyno'r hyfforddiant yn eu clwstwr er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

**CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE**
Hyfforddi'r Hyfforddwr- Mae 109 o hyfforddwyr bellach wedi'u hyfforddi i ddarparu hyfforddiant mewn ysgolion ym Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae dros 400 o ysgolion yng Nghonsortiwm Canolbarth y De.

Caerdydd - Hyfforddi'r Hyfforddwyr, bydd 72 yn hyfforddi'r ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd. Mae tri dyddiad arall ar gyfer Hyfforddi'r Hyfforddwr ar gael ym mis Hydref. Mae disgwyl y bydd holl ysgolion Caerdydd wedi cael hyfforddiant Cam 1 erbyn gwanwyn 2020.

Mae holl Gynghorwyr Her Consortiwm Canolbarth y De wedi derbyn hyfforddiant Cam 1.

Cydgysylltwyr Ysgolion Iach - 12 o hyfforddwyr sy'n gallu cyflwyno Cam 1 yn eu hysgolion cefnogol yn CSC.

Hyfforddiant ysgol gyfan yn cael ei gyflwyno gan Arweinydd Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod – 3 ysgol uwchradd - Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant, Ysgol Gynradd yr Holl Saint, y Bari ac Ysgol Gynradd Cwmdâr Aberdâr.

Ysgolion Merthyr - Cam 1 wedi'i gyflwyno mewn 12 o ysgolion yn yr Awdurdod Lleol. Ysgol Uwchradd Pen y Dre, Ysgol Uwchradd Afon Taf, yr Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley, Ysgol Uwchradd Cyfarthfa, Ysgol Gynradd Heolgerrig, Ysgol Gynradd Twynyrodyn, Ysgol Gynradd y Graig, Ysgol Gynradd Santes Tudful, Ysgol Gynradd Caedraw, Eglwys Gatholig Sant Aloysius, Ysgol Gynradd Coed y Dderwen ac Ysgol Arbennig Greenfield.

**ERW**
Mae 52 o Arweinwyr Dysgu Clwstwr wedi'u hyfforddi i gyflwyno Cam 1 a 2 yn eu hysgolion.

Castell-nedd/Port Talbot- mae 65 o Swyddogion Diogelu Dynodedig sy'n gallu cyflwyno'r hyfforddiant Cam 1 a 2 yn eu hysgolion.

Powys - Mae 39 hyfforddwyr sy'n gallu cyflwyno yn eu hysgolion yn ystod cam 1 a 2.

Mae pawb yn Ysgol Gynradd Penygaer, Llanelli wedi'i hyfforddi gan arweinydd Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Ngham 1 a 2. Mae ysgolion Sir Benfro yn cael hyfforddiant Hyfforddi'r Hyfforddwr ar gyfer mis Tachwedd.

**GWE**
Mae holl staff GWE wedi derbyn hyfforddiant Cam 1.
Sir Ddinbych- Ysgol Uwchradd Prestatyn a phob un o'r 9 o ysgolion cynradd sy'n bwydo wedi derbyn hyfforddiant Cam 1 – 320 o staff mewn 10 ysgol.

Mae ysgolion Conwy a Wrecsam wedi trefnu Hyfforddi'r Hyfforddwr yn hydref.

**CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 11**

**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-VG-5938-19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Rhagfyr 2019

Annwyl Lynne,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd. Rwyf wedi nodi'r gwaith craffu pellach gennych chi ar y maes pwysig hwn ac edrychaf ymlaen at roi diweddariadau pellach.

Fel y gwyddoch, y prif gerrig milltir yn y maes hwn yw y dylai gwasanaethau cymunedol ar gyfer iechyd meddwl amenedigol fodloni Safonau Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan erbyn mis Mawrth 2020 a bodloni safonau ansawdd perthnasol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion erbyn mis Mawrth 2021. Mae gan bob un o'r cerrig milltir hyn nifer o safonau y mae'r byrddau iechyd yn gweithio tuag atynt.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y garreg filltir bwysig o ddatblygu Uned i Famau a Babanod yng Nghymru. Yn fy niweddariad blaenorol, mynegais bryder bod yr amserlen ar gyfer creu Uned chwe gwely i Famau a Babanod dan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi llithro, ac roeddwn wedi gofyn i swyddogion edrych ar ddewisiadau i gyflymu'r gwaith cynllunio neu i ddod o hyd i ateb dros dro. Yn anffodus, nid yw wedi bod yn bosibl cyflymu'r amserlen ar gyfer creu uned chwe gwely parhaol, felly mae swyddogion yn awr yn blaenoriaethu ateb dros dro i sicrhau bod lefel o ddarpariaeth yng Nghymru cyn gynted â phosibl. Byddwch yn sicr y byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr amserlen ar gyfer ateb dros dro cyn gynted ag y byddaf mewn sefyllfa i'w wneud. Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i sefydlu Uned barhaol i Famau a Babanod yng Nghymru ar fyrder.

Gallaf gadarnhau hefyd y byddaf yn rhoi fy niweddariad chwe misol nesaf ym mis Ebrill 2020. Erbyn y dyddiad hwn, byddaf yn gallu rhoi gwybodaeth ar rownd nesaf y data iechyd meddwl amenedigol a gafwyd gan fyrddau iechyd, a'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynnydd yn erbyn ein cerrig milltir allweddol a'r ffrydiau gwaith sy'n cael eu rheoli gan y Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC / AM**
Minister for Health and Social Services
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 12**

**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JM/5128/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Rhagfyr 2019

Annwyl Gadeirydd,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am y gwaith craffu ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) sy'n parhau i gael ei wneud ganddynt.

Yn ystod proses graffu'r Pwyllgor yng Nghyfnod 2 ar 24 Hydref 2019, cynigiais weithio gyda'r Aelodau ar welliannau Cyfnod 3 mewn perthynas ag amseru a chyhoeddi adroddiadau'r adolygiad ôl-weithredu.

Roeddwn yn falch o gael trafodaeth gadarnhaol â Suzy Davies AC a Janet Finch Saunders AC am yr adolygiad ôl-weithredu. Daethom i gytundeb ar gael adolygiad ôl-weithredu interim ac un terfynol. Bydd y ddau adolygiad yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad a'u cyhoeddi – a chaiff hynny eu cyflwyno fel gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 3.

Cawsom drafodaeth hefyd am welliannau eraill yr Aelodau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2, a oedd yn ceisio ychwanegu rhagor o fanylder am yr hyn a ddylai gael ei gynnwys mewn adroddiad ar yr adolygiad ôl-weithredu ar wyneb y Bil.

Rwy o'r farn o hyd nad oes angen y lefel honno o fanylder ar gyfer y Bil ei hunan. Fodd bynnag, rwy'n deall pwysigrwydd sicrhau cael adolygiad ôl-weithredu cynhwysfawr sy'n adrodd am effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth a'i heffaith ar wasanaethau rheng flaen. Byddaf yn ysgrifennu at Gadeirydd y Grŵp Gweithredu Strategol, gan anfon copi o'r llythyr at Gydgadeiryddion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu a Monitro Data.

Gofynnaf i'r Grwpiau drafod cynnwys tebygol yr adolygiad ôl-weithredu ac ystyried pa mor ymarferol y mae'n ymdrin â'r materion sy'n codi yng ngwelliannau Cyfnod 2 a gyflwynwyd gan Janet Finch Saunders AC.

Er gwybodaeth, fe anfonaf gopi o lythyr y Grŵp Gweithredu Strategol ymlaen i'r Pwyllgor.

Disgwylir cynnal cyfarfodydd nesaf y Grŵp Gweithredu Strategol a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu a Monitro Data ar ddechrau mis Chwefror. Gofynnaf i'r Grwpiau ymateb, ac anfonaf gopi o'r llythyr i'r Pwyllgor, cyn gynted ag sy'n bosibl yn dilyn eu trafodaethau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses graffu'r Cynulliad. Byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r adolygiad ôl-weithredu pan ddaw i law.

Yn gywir,



**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 13**

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Ein cyf/Our ref MA/JM/5128/19

Karen Cornish
Cadeirydd
Grŵp Gweithredu Strategol
Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

11 Rhagfyr 2019

Annwyl Karen,

Hoffwn ddiolch i'r Grŵp Gweithredu Strategol, a'i Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, am eu gwaith manwl ar gynlluniau gweithredu'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), os bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol.

Yn ystod proses graffu'r Bil yng Nghyfnod 2 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, cyflwynwyd cyfres o welliannau Anllywodraethol a oedd yn ceisio ychwanegu rhagor o fanylder am yr hyn a ddylai gael ei gynnwys mewn adroddiad ar yr adolygiad ôl-weithredu ar wyneb y Bil. Ni ddaethpwyd i gytundeb ar y gwelliannau hynny.

Nid wyf o'r farn bod angen y lefel honno o fanylder ar wyneb y Bil, ond rwy'n deall pwysigrwydd sicrhau bod yr adolygiad ôl-weithredu yn un cynhwysfawr sy'n adrodd am effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth a'i heffaith ar wasanaethau rheng flaen.

Gwerthfawrogwn safbwyntiau'r Grŵp Gweithredu Strategol am gynnwys posibl adroddiad yr adolygiad ôl-weithredu, ynghyd â gwybodaeth am ba mor ymarferol yw cynnwys effaith y newidiadau i'r gyfraith y gallai diddymu amddiffyniad cosb resymol ei chael ar y materion y rhoddir sylw iddynt yng ngwelliannau aflwyddiannus Cyfnod 2 y Bil:

- Nifer y bobl a erlynir am gosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru;
- Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru;
- Nifer yr adroddiadau i'r heddlu am gosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru, a faint o'r adroddiadau hynny a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd;
- Nifer yr adroddiadau a wnaed i adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru am gosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru, a faint o'r adroddiadau hynny a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd;
- Y costau a ysgwyddir gan unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig (fel y'i nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006[1]) o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith;

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/schedule/9A

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Y costau a ysgwyddir gan unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig am hyfforddi gweithwyr o ganlyniad i'r newidiadau hyn i'r gyfraith; a
- Nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi gan unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig sydd wedi mynychu hyfforddiant o ganlyniad i'r newidiadau hyn i'r gyfraith.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gydgadeiryddion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu a Monitro Data, a byddaf hefyd yn anfon copi ohono i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, er gwybodaeth.

Yn gywir,



**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services